OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2006 No. 1701

# Gorchymyn Iechyd Planhigion (Tystysgrifau Allforio) (Cymru) 2006

**Ffioedd am ddyroddi tystysgrifau a darparu gwasanaethau**

**5.**—(1) Yn ddarostyngedig i baragraff (2), rhaid talu i'r Cynulliad Cenedlaethol—

(a) o ran y gwasanaethau y cyfeirir atynt yng ngholofn gyntaf Atodlen 3, y ffi a bennir gyferbyn yn ail golofn yr Atodlen honno; a

(b) o ran gwasanaeth cyn-allforio, y ffi a bennir yn ail golofn Atodlen 4.

(2) Rhaid i allforiwr bach dalu i'r Cynulliad Cenedlaethol—

(a) o ran y gwasanaethau y cyfeirir atynt yng ngholofn gyntaf Atodlen 3 naill ai—

(i) y ffi a bennir gyferbyn yn nhrydedd golofn Atodlen 3; neu

(ii) os yw cyfanswm y ffioedd o ran unrhyw wasanaethau o dan y Gorchymyn hwn y daeth yn atebol amdanynt yn ystod y flwyddyn ariannol pan wneir y cais ganddo yn fwy na £250, y ffi a bennir yn ail golofn Atodlen 3; a

(b) o ran gwasanaeth cyn-allforio naill ai—

(i) y ffi a bennir yn nhrydedd golofn Atodlen 4; neu

(ii) os yw cyfanswm y ffioedd o ran unrhyw wasanaethau o dan Gorchymyn hwn y daeth yn atebol amdanynt yn ystod y flwyddyn ariannol pan wneir y cais ganddo yn fwy na £250, y ffi a bennir yn ail golofn Atodlen 4.

(3) Yn yr erthygl hon, ystyr “allforiwr bach” (“*small exporter*”) yw person, yn y flwyddyn ariannol pan wneir y cais—

(a) nad yw'n berson trethadwy at ddibenion Deddf Treth ar Werth 1994(**1**); neu

(b) nad yw'n cyflenwi'n drethadwy blanhigion, cynhyrchion planhigion, hadau, pridd neu beiriannau amaethyddol at ddibenion Deddf Treth ar Werth 1994; neu

(c) na wnaeth allforio yn y flwyddyn ariannol flaenorol nwyddau a thystysgrif gyda hwy yr oedd cyfanswm eu gwerth yn £5,000 neu fwy.

(**1**) 1994 p.23.